



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes

Mawrth 2017

CYNNWYS

Rhagair	Tudalen 01
Cyflwyniad a Chyd-destun	Tudalen 03
Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes	Tudalen 04
Llais/Profiad y Claf	Tudalen 05
Gofal Sylfaenol a Gofal Acíwt	Tudalen 05
Plant a Phobl Ifanc	Tudalen 06
Mesur Llwyddiant	Tudalen 08
Ymchwil	Tudalen 09
Gweithredu'r Cynllun Cyflawni	Tudalen 11
Thema Gyflawni 1: - Cynorthwyo â Byw a Marw Gydag Urddas	Tudalen 12
Thema Gyflawni 2: - Canfod ac Adnabod Cleifion yn Gynnar	Tudalen 13
Thema Gyflawni 3: - Darparu Gofal Cyflym ac Effeithiol	Tudalen 14
Thema Gyflawni 4: - Lleihau Trallod Salwch Angheuol i'r Claf a'r Rheiny sy'n Agos Ato	Tudalen 16
Thema Gyflawni 5: - Gwella Gwybodaeth	Tudalen 17
Thema Gyflawni 6: - Targedu Ymchwil	Tudalen 18
Thema Gyflawni 7: - Addysg	Tudalen 19
Atodiad 1: Newidiadau Strategol a Deddfwriaethol	Tudalen 20
Atodiad 2: Dolenni i Wefannau	Tudalen 23

Rhagair

Fel cadeirydd y Bwrdd Gofal Diwedd Oes a'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Diwedd Oes, hoffem gydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud i wella gofal diwedd oes a ddechreuodd gydag Adroddiad Sugar yn 2009. Mae'r cynnydd hyd yma wedi dibynnu ar arweiniad clinigol cadarn a gweithio cydgynhyrchiol effeithiol rhwng GIG Cymru a'n partneriaid yn y trydydd sector. Fel Bwrdd, rydym yn benderfynol o sicrhau bod y cynllun cyflawni wedi'i ddiweddarau hwn yn manteisio ar y llwyddiant a gafwyd hyd yma ac yn cynnal ymagwedd golegaidd at wella gofal diwedd oes yng Nghymru.

Mae ein Bwrdd Gofal Diwedd Oes yn cael ei gefnogi gan Grŵp Gweithredu Clinigol Gofal Lliniarol Oedolion sefydledig, dan gadeiryddiaeth Dr Mel Jefferson, a Grŵp Gweithredu a Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru gyfan, dan gadeiryddiaeth Dr Richard Hain, sy'n galluogi ymagwedd Cymru'n un, gan ddarparu cymorth gan gymheiriaid a gweithredu fel plattform effeithiol i rannu gwybodaeth.

Ein nod yw i bobl yng Nghymru fod ag agwedd iach, realistig at farw, a gallu cynllunio'n briodol ar gyfer y digwyddiad. Rydym eisiau iddynt allu dod i ddiwedd eu hoes yn y man maent yn ei ddewis – boed gartref neu mewn ysbyty neu hosbis, ac rydym eisiau iddynt allu cael gofal o ansawdd da lle bynnag maent yn byw ac yn marw, beth bynnag fo eu salwch neu anabledd gwaelodol.

Rôl y Bwrdd Gofal Diwedd Oes yw bwrw ymlaen â'r cynllun cenedlaethol a chynorthwyo byrddau iechyd i gyflawni eu cynlluniau lleol. Caiff hyn ei gyflawni trwy adeiladu ar y perthnasoedd, systemau a gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwneud y mwyaf o'u potensial. Bydd ein hymagwedd gydweithredol yn defnyddio'r Grŵp Gweithredu Clinigol Gofal Lliniarol a Grwpiau Gweithredu perthnasol eraill i weithio gyda'r GIG a phartneriaid yn y trydydd sector i sicrhau newid.

Datblygwyd Grŵp Gweithredu a Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru gyfan i sicrhau gwelliannau yn y gofal i'r rheiny â chyflyrau sy'n cyfyngu ar oes o'u geni, trwy eu plentyndod ac i'w glasoed. Caiff hyn ei gyflawni trwy weithio gyda'r hosbisau plant, Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith/Hope House, i ganfod atebion gwasanaeth i ddiwallu anghenion am ofal lliniarol pediatrig yn ardal pob bwrdd iechyd.

Mae darparu gofal da i gleifion ar ddiwedd eu hoes o'r pwys mwyaf. Gwyddom hefyd fod gofal da yn hwyluso proses galaru iach i'r rheiny sydd wedi cael profedigaeth. Mae gofal priodol mewn galar yn bwysig a byddwn yn parhau i weithio i hybu gwasanaethau i'r rheiny mae arnynt angen cymorth parhaus ar ôl marwolaeth.

Byddwn yn ystyried sut y gallwn ymgysylltu'n well â chleifion a deall eu profiad, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgynhyrchu'n wirioneddol gyda mewnbwn eang a strwythuredig. Byddwn yn datblygu mesuriadau canlyniadau sy'n adlewyrchu profiad cleifion, a'r bobl sy'n agos atynt, yn fwy cywir.

O gofio'r pwysau dirfawr ar welyau aciwt mewn ysbytai, mae angen i amrywiaeth fwy o ymyriadau gofal gael eu darparu'n uniongyrchol i gleifion yn eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd angen mwy o addysg i berthnasau/procsi am agweddau ar ofal, gan gynnwys symud a chario sylfaenol, wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn. Mae'n anghynaliadwy yn y tymor hir i barhau i symud cleifion sy'n dod i ddiwedd eu hoes i'r ysbyty i gael ymyriadau a rhaid ystyried o ddifrif ffyrdd o ddarparu mwy o ymyriadau yn y gymuned i gleifion o bob oed.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi rhaglen o addysg sy'n cynnwys ein Rhaglen Arweinyddiaeth i'r Gweithlu sy'n helpu i ddatblygu arweinwyr y dyfodol i 2020 ac wedi hynny. Trwy Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw rydym yn gweithio i ddeall y fframwaith cyfreithiol o gwmpas gwneud penderfyniadau ar ran y rheiny sydd heb y galluedd meddwl i wneud y penderfyniad hwnnw ar yr adeg honno, ac yn edrych ar ffyrdd i gyfleu penderfyniadau o'r fath ar draws pob sector. Hefyd rydym yn gwella cyfathrebu â chleifion trwy barhau i gyflwyno ein rhaglen hyfforddiant ar Hwyluso sgysiaiu am 'Salwch Difrifol', sy'n rhoi i'r staff ffyrdd o ddechrau, cynnal a therfynu sgysiaiu anodd o'r fath.

Fwyfwy mae technoleg ddigidol hefyd yn cael ei defnyddio i gynorthwyo cleifion a'u galluogi i chwarae rhan yn eu gofal eu hunain. Byddwn yn gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol, teleiechyd a thelefeddygaeth lle bynnag y bo modd i helpu cleifion i gyflawni hunan-ofal.

Mae gennym ni i gyd ran i'w chwarae wrth gyflawni uchelgeisiau'r cynllun hwn, gan gynnwys cymunedau lleol ac unigolion. Nid yw pobl yn dewis datblygu nac yn wir cael eu geni â chyflwr anwelladwy. Trwy'r broses heneiddio raddol, byddwn i gyd yn cyrraedd man lle mae disgwyliad oes yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gall pobl ddewis lleihau'r risg cymaint ag sy'n bosibl trwy ddewisiadau o ran ffordd o fyw a gall mesurau o'r fath gael effaith sylweddol ar iechyd pobl. Gall ymagwedd iach at farw, cynllunio ymlaen llaw a rhoi gwybod i deuluoedd a ffrindiau am eu dymuniadau arwain at well gofal wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar ddiwedd oes. Iechyd a gofal cymdeithasol doeth a darbodus ar ei orau yw hyn.

Mae llawer o heriau o hyd ac mae'n rhaid i randdeiliaid barhau i gydweithio i adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud hyd yma. Rhaid i Fyrddau Iechyd barhau i weithio'n agos â'u partneriaid yn y trydydd sector i ddarparu'r gofal diwedd oes gorau posibl ledled Cymru.

Steve Ham
Cadeirydd y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes
Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG
Felindre

Yr Athro Ilora Barwnes Finlay
Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Gofal
Diwedd Oes

Cyflwyniad a Chyd-destun

Amcangyfrifir bod gan 0.75% (23,000) o holl boblogaeth Cymru anghenion o ran gofal lliniarol ar unrhyw adeg¹ ac mae nifer y bobl sy'n marw bob blwyddyn yn dal i godi. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweld mwy o bobl yn byw gydag aml-afiachedd ac eiddilwch, ac na fyddant o angenrheidrwydd yn dilyn llwybr arferol neu ragweladwy at farwolaeth.

Dywedodd adroddiad diweddar gan Marie Curie: *'Palliative care and the UK nations - an updated assessment on need, policy and strategy' (2015)*² fod y gwaith i weithredu argymhellion Adroddiad Sugar wedi rhoi Cymru fel gwlad 'ar flaen y gad'. Cymru oedd y gyntaf o ddwy wlad yn unig yn y Deyrnas Unedig i fod â chynllun cyflawni cyfredol a throsfwaol ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes. Nododd Adroddiad Marie Curie hefyd y gellir gweld mwy o angen yn y nifer gynyddol o farwolaethau a gofnodwyd gyda chlefyd Alzheimer, dementia a heneidd-dra fel yr achos gwaelodol; a chynnydd yn nifer y marwolaethau a briodolir i glefyd y galon a'r arennau.

Tynnodd adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod y Cynllun Cyflawni Gofal Lliniarol a Diwedd Oes cyntaf sylw hefyd at feysydd lle mae angen gwelliant. Nododd 'Living and Dying with Dementia in Wales: Barriers to Access', Cymdeithas Alzheimer Cymru Marie Curie, 2015³ a People with a Learning Disability 'A Different Ending: Addressing Inequalities in End of Life Care', Y Comisiwn Ansawdd Gofal, 2016⁴ rwystrau gan gynnwys mynediad at ofal i bobl ag anableddau dysgu a dementia, a diffyg cynllunio gofal yn effeithiol ymlaen llaw a diagnosis amserol i'r ddau grŵp.

Tynnwyd sylw at yr angen i wella mynediad at wasanaethau gofal lliniarol i'r gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn ne-ddwyrain Caerdydd, Marie Curie (2014)⁵ ac i'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yn "'Hiding who I am" The reality of end of life care for LGBT people' Marie Curie (2016)⁶.

Mae angen mabwysiadu dull cyfun o Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw, gwneud penderfyniadau ar y cyd a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal iechyd yn y

¹ Mae'r ffigur hwn yn gyson â Murtagh et al. [2014], Gómez-Batiste et al. [2012], ac End of Life Care Atlas Marie Curie (o ddata 2011-2012) [2012].

² <https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/marie-curie-reports/state-of-the-nations-mariecurie-report-england.pdf>

³ <https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/policy-publications/february-2015/living-and-dying-with-dementia-in-wales.pdf>

⁴ http://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20160505%20CQC_EOLC_OVERVIEW_FINAL_3.pdf

⁵ <https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/who-we-are/plans-reports-and-policies/diversity-and-inclusion/improving-access-in-cardiff/improving-access-bame-cardiff.pdf>

⁶ <https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/policy-publications/june-2016/reality-end-of-life-care-lgbt-people.pdf>

maes hwn er mwyn cynorthwyo'r cleifion hyn a'u teuluoedd a gofalwyr, ac i ddysgu'r ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â phob agwedd ar ofal lliniarol a gofal diwedd oes, a ddarperir gan feysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol a ddarperir gan y GIG neu ddarparwyr yn y trydydd sector. Mae gofal o'r fath hefyd yn golygu cydnabod anghenion pobl sy'n cael profedigaeth. Mae'n adeiladu ar lwyddiant y cynllun cyntaf ac wedi'i osod allan gyda strwythur tebyg, gan gadw'r themâu gwreiddiol a chan ychwanegu thema addysg.

Mae'r gweithlu'n elfen hollbwysig yn y GIG ac yn y trydydd sector, ac yn benderfynydd allweddol i lwyddiant unrhyw sefydliad. Mae gweithlu ymroddedig, cynaliadwy a medrus yn hanfodol i ddarparu safonau gofal uchel a gweddnewid y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn ymdrin â'r llu o heriau a wynebir gan y GIG yng Nghymru heddiw.

Mae nifer o themâu cyffredin yn llifo ar draws llawer o gynlluniau cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflyrau iechyd o bwys a bydd gan bron pob un gysylltiadau â'r Cynllun Darparu Gofal Lliniarol a Diwedd Oes. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau cyflawni ar gyfer iechyd anadlol, strôc, canser, y galon a'r afu, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Ers cyhoeddi'r cynllun cyflawni cyntaf, bu nifer o newidiadau strategol a deddfwriaethol sydd wedi effeithio ar bolisi ac sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cynllun wedi'i ddiweddarau hwn. Ceir crynodeb o'r newidiadau hyn yn Atodiad 1. Ceir y dolenni perthnasol yn Atodiad 2.

Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes

Mae'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes yn darparu arweiniad a chymorth cenedlaethol ac yn gweithredu fel fforwm i fwrw ymlaen â newid a goruchwyllo ymdrechion byrddau iechyd i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gofal diwedd oes yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn cael ei ad-drefnu i gynnwys cynrychiolwyr o'r holl rai sy'n ymwneud â darparu gofal diwedd oes, gan gynnwys sicrhau bod llais y cleifion a'u teuluoedd yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer eu poblogaethau, mae'n rhaid i fyrddau iechyd lleol feithrin ac arwain cynghreiriau gydag Ymddiriedolaethau GIG, rhwydweithiau ardaloedd lleol, ymarferwyr cyffredinol, cartrefi nyrsio, fferyllwyr, deintyddion, optegwyr, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau carchardai a chyrrff gwirfoddol yn y trydydd sector. Mae elusennau gofal lliniarol a hosbisau annibynnol yn hanfodol wrth ddiwallu anghenion pobl sy'n dod at ddiwedd eu hoes. Mae angen i'r gwasanaethau hyn fod yn rhan o wasanaeth gofal diwedd oes integredig.

Llais/Profiad y Claf

Mae deall profiadau pobl sydd ar ddiwedd eu hoes a'u teuluoedd yn sylfaenol i wasanaethau cydgynhyrchiol sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae'r ddealltwriaeth hon hefyd yn allweddol i'r gwaith o fesur effeithiolrwydd gwasanaethau.

Er mwyn i ofal wella i bob claf sy'n marw, bydd angen i hyn gael ei gydgyssylltu mewn gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol. Dylai hyn gynnwys ystyried pryd y dylid gofyn am gyngor arbenigol ar ofal lliniarol a/neu pryd mae gwasanaethau o'r fath yn arwain y gwaith o ddarparu gofal, er enghraifft mewn hosbisau. At hynny, bydd eu profiad personol o'r ffordd mae eu teuluoedd, partneriaid a ffrindiau wedi cael gofal ar ddiwedd eu hoes yn effeithio ar iechyd a lles pobl sydd wedi cael profedigaeth.

Hyd yma mae adborth defnyddwyr wedi cael ei gasglu trwy raglen iWantGreatCare ac oddi wrth ddefnyddwyr ar y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes. Rhaid parhau i ganolbwyntio ar hyn a hefyd adeiladu ar agweddau sydd wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaethau yn ystod cyfnod y cynllun cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys cynorthwyo cydweithwyr proffesiynol i gydnabod bod cleifion yn dechrau ar gyfnod diwedd oes a rhoi iddynt y sgiliau i ddechrau Sgyrsiau am Salwch Difrifol.

Sefydlwyd yr elusen Byw Nawr (Live Now) yn 2014 yng Nghymru i ysgogi'r sgyrsiau cyhoeddus am farwolaeth a marw ac i helpu pobl i drafod eu pryderon yn agored. Mae hyn yn caniatáu i unigolion a'r rheiny sy'n eu cynrychioli gynllunio'n briodol ar gyfer eu dirywiad corfforol a gallu mwynhau faint bynnag o amser sydd ganddynt ar ôl, heb faich ofnau a phryderon ynghylch yr hyn sydd o'u blaen ac o flaen eu dibynnyddion. Nod Byw Nawr yw addysgu'r cyhoedd a darparu gwybodaeth am farwolaeth a marw yn y gymdeithas heddiw, tawelu ofnau a gwella ymddygiadau yn nhermau cleifion yn cynllunio ar gyfer realiti eu marwoldeb eu hunain.

Gofal Sylfaenol a Gofal Acíwt

Mae gan gyffredinolwyr ac arbenigwyr mewn meysydd heblaw gofal lliniarol (ymarferwyr cyffredinol, meddygon, geriatregwyr, nyrsys cymunedol, parafeddygon a nyrsys arbenigol cyflwr benodol) ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o adnabod a chynorthwyo'r unigolion hyn, a sicrhau y caiff ymagwedd gofal lliniarol ei mabwysiadu, os yw'n briodol, o adeg gynnar ymlaen. Bydd hyn yn cynorthwyo â'r gwaith o ddarparu gofal da ar ddiwedd oes.

Mae cadw cleifion yn eu cartref arferol, pan fo'n briodol, yn nod pwysig. Mae angen inni sicrhau nad yw pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty fel derbyniadau brys yn ddiangen tua diwedd eu hoes.

Dylai gweithwyr proffesiynol ym mhob lleoliad sy'n gofalu am gleifion yn eu dyddiau olaf allu mabwysiadu ymagwedd at ofal fel y'i diffinnir yn y ddogfen Penderfyniadau

Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes ⁷. Dylai hyfforddiant i gynorthwyo â phenderfyniadau gofal fod ar gael.

Mae meithrin a datblygu'r sgiliau (sgiliau o ran cyfathrebu, sgysiau am salwch difrifol, adnabod cleifion ag anghenion o ran gofal lliniarol ac anghenion o ran rheoli symptomau yn gynnar) ymysg y gweithlu cyffredinolwyr ym meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd ac yn y gymuned, yn *hanfodol* i'r nod cyffredinol sef darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes sy'n deg ac o ansawdd da i bobl Cymru.

Mae angen i fyrddau iechyd feddu ar strategaeth cynllunio olyniaeth sy'n cynorthwyo staff i ddatblygu sgiliau a chymwysterau mewn gofal lliniarol a gofal diwedd oes. Dylid ystyried cyfleoedd i fabwysiadu modelau cyflawni newydd, sy'n cynnwys rolau fel Uwch Ymarferydd Nyrsio, meddygon Arbenigol Staff a Chyswllt, Cynorthwywyr Meddygol, a rôl y fferylllydd cymunedol, sy'n newid.

Mae Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw yn broses sy'n cynorthwyo pobl i gynllunio ymlaen llaw a gwneud penderfyniadau a mynegi dewisiadau rhag ofn iddynt gollu galluedd. Ers dechrau'r Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol ym mis Medi 2007 mae'r ffordd y gweithredir Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wedi gwella ar draws Cymru. Fel rhan o'r gwelliant hwn, mae ymgynghoriad ar bob agwedd, gan gynnwys penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth, wedi bod ar waith ers cyhoeddi adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 'Increasing Understanding and Uptake of Advanced Decisions in Wales' (2015)⁸. Mae'r adroddiad yn argymhell annog y cyhoedd i gynllunio ar gyfer posibilrwydd colli galluedd yn y dyfodol.

Plant a Phobl Ifanc.

Mae adroddiad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru: Palliative Care for Children and Young People in Wales⁹ yn cydnabod ei bod yn anodd canfod nifer y plant a phobl ifanc sydd angen gofal lliniarol, yn rhannol oherwydd fe'i diffinnir yn bennaf gan anghenion y plentyn unigol a'i deulu. Mae'r adroddiad yn awgrymu cyfradd mynychder a amcangyfrifir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n debygol o fod angen gwasanaethau gofal lliniarol o 15 ym mhob 10,000 o'r boblogaeth 0–19 oed (ac eithrio babanod newydd anedig).

Yng Nghymru mae 3,200 o blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar oes fel y cânt eu categoreiddio gan yr elusen plant Together for Short Lives a/neu'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant isod:

- I – cyflyrau sy'n cyfyngu ar oes ond y gallai fod gwellhad iddynt (e.e. canser)
- II – cyflyrau lliniarol, lle mae cyfnod o normalrwydd yn gyntaf (e.e. nychdod cyhyrol)

⁷ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/160301whc004cy.pdf>

⁸ <http://sites.cardiff.ac.uk/ppiw/files/2016/02/PPIW-Report-Increasing-the-awareness-and-uptake-of-Advance-Decisions.pdf>

⁹ <https://www.tyhafan.org/uploads/Documents/Ty-Hafan-WIHSC-Report-2016.pdf>

III – cyflyrau a fydd yn achosi marwolaeth ar ôl cyfnod hir o ddirywiad di-baid (e.e. clefyd Tay Sachs)

IV – cyflyrau a fydd yn achosi marwolaeth gynamserol yn ystod plentyndod ond y mae'n amhosibl rhagweld eu cwrs (e.e. parllys yr ymennydd difrifol).

Fel arfer mae plant a phobl ifanc â chyflyrau yng ngrwpiau II, III a IV yn profi tri neu bedwar episod 'diwedd oes', yn aml â sawl mis rhyngddynt, y gallant ymadfer ohonynt yn annisgwyl. Caiff pob un o'r rhain ei ystyried yn briodol yn episod diwedd oes. Dim ond o ran ei ganlyniad yn y pen draw mae pob un yn wahanol i'r episod diwedd oes terfynol, ac mae pob un yn galw am yr un cymorth o ran gofal lliniarol. Bob blwyddyn mae oddeutu 200 o blant yng Nghymru'n marw. Mae o leiaf hanner y rhain â chyflwr sy'n cyfyngu ar oes ac felly gallent o bosibl gael budd o ofal lliniarol. Fel y disgwylir, bach yw'r nifer o gymharu â grwpiau oedran eraill. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu bod yr angen am ofal lliniarol yn gymesur o fach. Mae cyfrifiad pro rata syml ar sail grwpiau oedran eraill yn dibynnu ar baradeim nad yw'n gywir i blant a phobl ifanc. Rhaid i fodel priodol gymryd y pethau canlynol i ystyriaeth:

Mynychder: Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n dioddef o gyflwr sy'n cyfyngu ar oes, ar unrhyw adeg benodol, yn llawer gwaith mwy na'r nifer sy'n marw bob blwyddyn.

Model rheoli integredig: Fel arfer nid yw'r tîm gofal sylfaenol yn ymwneud â gofal o ddydd i ddydd i'r plentyn neu berson ifanc sy'n marw gartref. Mae gofal meddygol i blant a phobl ifanc yn aml yn cynnwys rhagnodi meddyginiaethau y tu allan i delerau'r drwydded, ac ym maes gofal lliniarol pediatrig rhagnodi anghonfensiynol o'r fath sy'n arferol. Mae'n bosibl y bydd timau gofal sylfaenol yn anghyfforddus wrth reoli'r plentyn neu berson ifanc sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar oes, ac fel arfer mae'n golygu mai'r tîm gofal lliniarol arbenigol sy'n darparu gofal ymyl y gwely i'r teulu gartref. Mae gan y rhan fwyaf o deuluoedd sy'n gofalu am blant a phobl ifanc sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar oes ryw fath o drefniant 'mynediad agored' gyda'r uned bediatrig leol sy'n darparu'r man mynediad i ofal iechyd.

Bydd rhai cleifion sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar oes yn llwyth achosion y rhan fwyaf o bediatregwyr. Ar unrhyw adeg benodol, nid oes angen cymorth gofal lliniarol pediatrig arbenigol ar y rhan fwyaf o'r cleifion hynny. Pan fo'i angen arnynt, darperir gofal lliniarol pediatrig trwy rwydwaith clinigol i Gymru gyfan, sy'n cynnwys tair elfen:

- Ym mhob bwrdd iechyd, tîm lleol o nyrsys a phediatregydd gofal lliniarol pediatrig arbenigol.
- Tîm trydyddol sy'n cynorthwyo timau lleol yn glinigol, trwy glinigau ar y cyd a thrafodaethau tîm amlddisgyblaethol, lle bo angen trwy fideogynadledda.
- Darparwyr yn y trydydd sector, yn arbennig yr hosbisau plant sy'n gwasanaethu Cymru. Caiff gofal lliniarol pediatrig ei ddarparu ar fodel gwasanaeth canolog a gwasanaethau cysylltiedig trwy ddeg is-glinig gwahanol ar draws Cymru, ymweliadau cartref a chyfathrebu electronig. Mae'r model wedi'i integreiddio rhwng

gwasanaethau yn y cartref a gwasanaethau cleifion mewnol, gan ganiatáu i'r un tîm arbenigol ddarparu parhad o ran cymorth.

Dylai llwybrau atgyfeirio a gofal cytunedig cenedlaethol i Gymru gyfan, gyda datblygiadau fel y Cynllun Gofal Ymlaen Llaw Peditrig (tebyg i gynlluniau gofal ymlaen llaw ym maes gofal oedolion) adlewyrchu anghenion penodol plant sy'n marw a'u teuluoedd. Mae angen i gyfathrebu rhwng yr holl sectorau gofal fod yn rhagorol, ac mae angen gwerthuso offer a llwybrau yn barhaus wrth iddynt gael eu harfer.

Mae pontio o wasanaethau peditrig i wasanaethau oedolion ym maes gofal lliniarol yn galw am gynllunio gofalus, cydweithredu agos rhwng gwasanaethau, a chymorth i rieni sy'n wynebu fframwaith cyfreithiol sydd wedi newid. Yn aml mae'r bobl ifanc hyn yn mynd yn ddifrifol sâl ac yna'n ymadfer yn annisgwyl nifer o weithiau cyn iddynt farw. Gall misoedd fynd heibio rhwng episodau o'r fath, gan wneud y patrwm llwyth gwaith yn wahanol i'r un ym maes gofal oedolion.

Os oes materion yn ymwneud ag iechyd yn ymestyn ar draws gwahanol feysydd arbenigol, dylai trosglwyddo gofal o wasanaethau peditrig nodi pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb clinigol arweiniol am gydgyssylltu'r gofal. Rhaid i'r holl wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, gofal lliniarol ac arbenigol sicrhau eu bod yn fedrus ac yn gymwys i ymdrin â'r ystod lawn o gyflyrau a all ddigwydd yn ystod y cyfnod wrth i ddefnyddiwr gwasanaethau symud o fod yn berson ifanc i fod yn oedolyn ifanc. Rhaid i hyn gynnwys sylw i gydsyniad mewn gofal iechyd, gan gynnwys asesiad Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a phenderfyniadau Budd Pennaf lle bo'n briodol. Dylai cynllunio amlasiantaethol gynnwys gwasanaethau i oedolion ifanc hyd at 25 oed, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mesur Llwyddiant

Gwyddom y bydd gwasanaeth da yn wahanol i gleifion gan ddibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth priodol, ar yr adeg iawn, mae angen inni ddeall beth sy'n dda o safbwynt y claf a'r gofalwr. Mae arolygon cleifion iWantGreatCare wedi darparu adborth gwerthfawr i wasanaethau ar draws Cymru ac wedi bod yn dda wrth eu gwerthuso, ond gan edrych tua'r dyfodol, rydym eisiau deall yn well beth sy'n rhagorol ym marn cleifion a'u teuluoedd, partneriaid a gofalwyr. Bydd llunio mesuriadau canlyniadau ansawdd a gofnodir gan gleifion yn flaenoriaeth. Byddwn yn defnyddio'r dangosyddion canlyniadau canlynol i fesur llwyddiant ymysg yr holl gleifion, ni waeth beth fo eu hoedran:

- Canlyniadau a gofnodir gan gleifion yn ystod eu gofal yn ymdrin â sgorau trallod symptomau penodol a'u gwerthusiad cyffredinol o ansawdd unrhyw wasanaeth gofal lliniarol arbenigol maent wedi dod ar ei draws
- Bydd data o'r ddarpariaeth gwasanaethau i fonitro pa mor ymatebol yw gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol, canfyddiadau adolygiadau gan

gymheiriaid o flwyddyn i flwyddyn, yn cynnwys adolygiad o gwynion a chanmoliaeth

- Gwerthusiadau a gofnodir gan deuluoedd o'r gofal a gafwyd; bydd y cynllun peilot presennol yng Nghwm Taf yn llywio amseriad a dull y gwaith o gael gwybodaeth o'r fath
- Cofrestri gofal lliniarol ymarferwyr cyffredinol fel dangosyddion ymwybyddiaeth o'r boblogaeth cleifion hon
- Wrth i'r prosesau Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw (oedolion a phediatrig) gael eu cynnwys yn systemau TG GIG Cymru, yna bydd nifer y cynlluniau o'r fath sy'n gyfredol ac wedi'u cofnodi gyda phorth clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn darparu dangosyddion o'r sgyrsiau am salwch difrifol sydd wedi digwydd
- Cyfran y cleifion sy'n cael gofal yn un o'r lleoedd maent wedi dweud yr hoffent eu defnyddio

Y ffordd orau i ddarparu gwasanaethau gofal diwedd oes da yw gan dîm o weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n dda, ar y cyd â chymorth cymdeithasol da a chymorth da i ofalwyr. Caiff ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaethau hyn eu mesur trwy'r broses Adolygu gan Gymheiriaid, systemau gwybodaeth ac adroddiadau byrddau iechyd. Caiff fframwaith adolygu gan gymheiriaid i Gymru gyfan ei gyhoeddi yn ystod 2017.

Mae'r broses adolygu gan gymheiriaid ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol eisoes wedi darparu llawer o wybodaeth, gan helpu gwasanaethau i ddatblygu yng ngoleuni adborth i allu diwallu anghenion eu poblogaeth leol yn well. Wrth i wasanaethau symud i gymryd mwy o gleifion nad ydynt yn dioddef o ganser, bydd rhannu eu profiadau o ddatblygu gwasanaethau newydd a gwahanol yn dod yn fwyfwy pwysig.

Mae'r cynllun wedi'i ddiweddarau hwn yn cydnabod y gellir darparu gofal diwedd oes da mewn amrywiaeth o leoliadau gan amrywiaeth o ddarparwyr gofal, o dimau gofal lliniarol arbenigol iawn a thimau aciwt cyffredinol mewn ysbytai i weithwyr cymorth gofal iechyd yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal.

Ymchwil

Mae ymchwil i ofal lliniarol wedi'i nodi'n faes blaenoriaethol yng Nghymru. Mae'r seilwaith wedi datblygu'n sylweddol yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf gyda buddsoddiad sylweddol gan Marie Curie yng Nghanolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae timau ychwanegol sydd wrthi'n gwneud ymchwil yn cael eu cynorthwyo gan sefydliadau addysg uwch gan gynnwys prifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor.

Yn fwy diweddar sefydlwyd gofal lliniarol a chynorthwyol fel un o ffrydiau gwaith allweddol Canolfan Ymchwil Canser Cymru, a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Er mwyn darparu gofal seiliedig ar dystiolaeth a gwella canlyniadau yn y dyfodol, mae angen mwy o gydgysylltu adnoddau ac ymgysylltu â'r gweithlu clinigol a

chleifion ar draws sefydliadau'r GIG, sefydliadau addysg uwch a'r trydydd sector. Nod cyffredinol y cynllun hwn yw gwneud ymchwil o ansawdd da sy'n uniongyrchol berthnasol i anghenion cleifion a gofalwyr ac a gaiff ei throsi'n rhwydd yn welliannau i'r gofal.

Mae'r amcanion allweddol er mwyn cyflawni hyn yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth ymchwil: parhau i ddatblygu arweinyddiaeth aml-broffesiynol gan ddenu cyllid ymchwil allanol o werth mawr i Gymru a'r Deyrnas Unedig fel arweinwyr prosiectau; hefyd fel cyd-ymgeiswyr a chydweithredwyr allweddol ar astudiaethau sy'n cael eu harwain o fannau eraill. Mae hyn yn galw am gydweithrediad ac ymrwymiad traws-sefydliadol i greu amgylchedd cynaliadwy ar gyfer cynnwys clinigwyr mewn gweithgareddau ymchwil a datblygu portffolio a llwybr i astudiaethau portffolio.
- Meithrin gallu: defnyddio arweinyddiaeth glinigol ac academaidd sefydledig i feithrin rhagor o allu i wneud ymchwil i ofal cynorthwyol a lliniarol yng Nghymru. Bydd hyn ar draws disgyblaethau a lefelau statws a bydd yn dibynnu ar gydweithredu a chydgyssylltu ar draws sefydliadau. Dylai sefydliadau clinigol gefnogi a hybu amser ymchwil neilltuedig i staff sy'n glinigol weithredol ym mhob disgyblaeth.
- Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd: dangos arweinyddiaeth ac arloesedd cenedlaethol parhaus wrth wreiddio model unigryw o Gynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd ar bob cam yn y gwaith o gynllunio, gweithredu a gwerthuso astudiaethau fel y gwelir yng Nghanolfan Ymchwil Canser Cymru a Chanolfan Ymchwil Marie Curie.
- Recriwtio pobl i gymryd rhan: parhau i gynyddu nifer y cleifion a gofalwyr sy'n cael cynnig mynediad i astudiaethau sydd wedi'u cynllunio'n dda, ar draws lleoliadau gofal. Bydd hyn yn galw am gydweithredu agos â gweithlu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac adrannau ymchwil a datblygu Byrddau Iechyd Prifysgol. Dylid rhoi cydnabyddiaeth i'r goblygiadau o ran adnoddau wrth gyflawni treialon o ymyriadau cymhleth, gan gynnwys cofnodi data mewn lleoliadau cartref, gan ystyried pwysoli wedi'i addasu ar gyfer yr astudiaethau hyn.
- Effaith: datblygu cyfleoedd i drosi canfyddiadau ymchwil newydd yn arferion yn gyflym. Bydd hyn yn galw am gydweithredu ar draws sefydliadau academaidd a chlinigol er mwyn cyflwyno arferion gofal lliniarol seiliedig ar dystiolaeth ar draws y gweithlu is-raddedig ac ôl-raddedig aml-broffesiynol, ac am dargedu grwpiau canllawiau allweddol gan gynnwys NICE a'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes. Hefyd caiff y Gwasanaeth Adolygu Tystiolaeth Gofal Lliniarol (PaCERS) yng Nghanolfan Ymchwil Canser Cymru ei ddefnyddio i gynorthwyo â'r gwaith o drosi tystiolaeth ymchwil yn arferion yn gyflym.

Gweithredu'r Cynllun Cyflawni

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd nodi, monitro a gwerthuso camau gweithredu yn eu hardaloedd y mae eu hangen er mwyn gweithredu'r Cynllun Cyflawni Gofal Lliniarol a Diwedd Oes hwn yng nghynllun tymor canolig integredig y bwrdd iechyd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n dal y GIG yn gyfrifol er mwyn sicrhau y caiff y camau gweithredu yn y cynllun hwn eu rhoi ar waith ac y caiff y canlyniadau a ddymunir eu cyflawni. Bydd y llinellau atebolrwydd trwy Gadeiryddion y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, ar y cyd â Phrif Weithredwyr y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau'n adrodd i Brif Weithredwr GIG Cymru, sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol i Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am gynllunio, sicrhau a darparu gwasanaethau lleol er mwyn sicrhau y gall y bobl hynny sydd ar ddiwedd eu hoes gael y gofal iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn. Mae gan bob bwrdd iechyd grŵp cynllunio a chyflawni lleol. Bydd angen i'r grwpiau lleol gynllunio gwasanaethau'n effeithiol i'w poblogaeth a chreu ac arwain cynghreiriau gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, byrddau iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr, gofal sylfaenol, llywodraeth leol a chyrrff gwirfoddol yn y trydydd sector.

Bydd y Bwrdd Gofal Diwedd Oes yn cynorthwyo byrddau iechyd a'u grwpiau cyflawni lleol trwy ddarparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth cadarn a chydgysylltiedig. Bydd yn cydgysylltu blaenoriaethau a chamau gweithredu cenedlaethol mewn ffordd strategol.

Thema 1: Cynorthwyo â Byw a Marw Gydag Urddas¹⁰

Dyheadau cyflawni:

Mae gan bobl yng Nghymru agwedd iach, realistig at farw. Maent yn cael eu hannog i siarad yn agored am y pethau sy'n ansicr mewn salwch difrifol, ac yn cael gwybodaeth a chymorth i wneud cynlluniau ar gyfer y rhan olaf o'u hoes.

Pryd bynnag mae oedolyn neu blentyn yn marw, rhaid i wasanaethau ystyried anghenion plant neu blant eraill mae'r farwolaeth yn effeithio arnynt, trwy ddilyn y dywediad 'ystyriwch y claf, ystyriwch y plentyn'.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Byrddau lechyd i:

1	Weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddatblygu cofnod cynllunio gofal ymlaen llaw i Gymru gyfan, i'w gwneud yn bosibl i gynlluniau gofal ymlaen llaw (oedolion a phediatrig) gael eu rhannu ar draws yr holl leoliadau gofal yng Nghymru.
2	Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i dimau gofal sylfaenol i alluogi cleifion i fynegi eu dymuniadau ynghylch eu gofal, a darparu gofal lliniarol mewn lleoliadau cymunedol. (Oedolion)
3	Cynnal gwasanaethau pediatrig cymunedol digonol i ddarparu gofal mewn lleoliadau cymunedol a chynorthwyo teuluoedd yn y mannau gofal o'u dewis. (Pediatrig)
4	Sicrhau bod fferyllwyr penodol ym mhob bwrdd iechyd i gynorthwyo â'r gwaith o wella'r ffordd y rheolir meddyginiaethau i gleifion sy'n ddifrifol sâl ac sy'n marw.
5	Ystyried lleoli fferylllydd pediatrig arweiniol yn Ysbyty Plant Cymru gyda hyfforddiant gofal lliniarol i gynorthwyo â'r gwaith o wella'r ffordd y rheolir meddyginiaethau i blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar oes mewn ysbytai, lleoliadau cymunedol a hosbisau plant. (Pediatrig)
6	Darparu un man cyswllt, 24/7, i deuluoedd sy'n gofalu am berson gartref sy'n debygol o farw'n fuan, wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn, hyd yn oed os ymddengys nad oes ei angen ar unwaith.
7	Hybu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r angen i wneud trefniadau ar gyfer eu marwolaeth, gan gynnwys gwneud ewyllys, ymdrin â'u materion ariannol a llunio cynllun ar gyfer eu dewisiadau. (Oedolion)

Clinigwyr a rheolwyr gwasanaethau i:

8	Adnabod cleifion ag anghenion o ran gofal sy'n newid tua diwedd eu hoes yn gynnar, trwy ddefnyddio cofrestri gofal lliniarol a chyfarfodydd rheolaidd o dimau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.
----------	--

Pob adran glinigol i:

9	Sicrhau bod gan bob adran glinigol raglen i sicrhau bod gofalwyr sy'n aelodau o'r teulu'n cael eu haddysgu ynghylch egwyddorion sylfaenol y ddarpariaeth gofal i'r claf yn ei gartref, gan gynnwys codi a symud yn ddiogel, a rhoi meddyginiaethau megis rhai lleddfu poen ar frys.
----------	---

¹⁰ Lle nad yw blaenoriaethau wedi'u categorio'n 'Oedolion' neu 'Pediatrig', maent yn cyfeirio at y ddau.

Thema 2: Canfod ac Adnabod Cleifion yn Gynnar

Dyheadau cyflawni:

Mae pobl sydd ag anghenion o ran gofal lliniarol yn cael eu hadnabod yn gynnar i'w gwneud yn bosibl cynllunio'r gofal gorau ymlaen llaw, gan ddefnyddio offer priodol i oed.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Byrddau Iechyd i:

- | | |
|----------|---|
| 1 | Adnabod, trwy wahanol fecanweithiau adborth, gweithwyr proffesiynol iechyd a fyddai'n cael budd o hyfforddiant ar ddechrau sgysiau am salwch difrifol gyda chleifion a'u teuluoedd, a darparu hyfforddiant o'r fath. (Oedolion) |
| 2 | Sicrhau bod timau cyffredinolwyr yn gallu ac yn gwybod sut i gael cymorth 24/7 oddi wrth wasanaethau gofal lliniarol arbenigol i oedolion a phlant, gan gynnwys y rheiny ag anableddau dysgu. |
| 3 | Nodi Arweinydd Clinigol ar gyfer Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw. |
| 4 | Gwirio, fel rhan o broses y QOF, neu drefniadau dilynol, bod ymarferwyr cyffredinol yn cadw Cofrestri Gofal Lliniarol o gleifion o bob oed ac ar draws pob categori clefyd, sydd â disgwyliad oes o lai na blwyddyn. |
| 5 | Gwirio, fel rhan o broses y QOF, neu drefniadau dilynol, fod cyfarfodydd rheolaidd i dimau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal i drafod cleifion mewn lleoliadau aciwt, sylfaenol a chymunedol, a bod y rhain yn cynnwys aelod o'r tîm gofal lliniarol arbenigol. |

Thema 3: Darparu Gofal Diwedd Oes Cyflym ac Effeithiol

Dyheadau cyflawni:

Mae pobl yn cael gofal cyflym ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cynnal ansawdd bywyd cyhyd ag y bo modd. Caiff anghenion cleifion a'u teuluoedd eu nodi a'u diwallu fel y teimlant eu bod yn cael gwybodaeth a chymorth da.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Byrddau lechyd i:

- | | |
|---|---|
| 1 | Adolygu capasiti a sgiliau presennol y gweithlu gofal lliniarol arbenigol a sicrhau bod ganddynt gynlluniau gweithlu tymor byr a hirdymor i fynd i'r afael ag anghenion yn y dyfodol, gan gydnabod amrywiaeth a'r angen sy'n bodoli eisoes. |
| 2 | Adolygu capasiti y gwasanaethau profedigaeth presennol a'r lleoliadau lle cânt eu darparu er mwyn sicrhau bod anghenion yr holl deuluoedd a gofalwyr sydd wedi cael profedigaeth yn cael eu diwallu. |
| 3 | Sicrhau bod yna fecanweithiau gweithredol i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo cleifion yn gyflym er mwyn diwallu anghenion cleifion a chyflawni eu dymuniadau o ran gofal. |
| 4 | Parhau i gymryd rhan mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol a rhaglenni adolygu gan gymheiriaid perthnasol, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i ysgogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau. |
| 5 | Cynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol seiliedig ar dystiolaeth trwy dimau aml-ddisgyblaethol sydd wedi'u trefnu'n dda, gyda ffrydiau cyllido clir ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol yn unol â chanllawiau cenedlaethol. |
| 6 | Cymryd i ystyriaeth yr holl dystiolaeth a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a datganiadau ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) wrth ddatblygu llwybrau clinigol i gleifion sydd ar ddiwedd eu hoes. |

Byrddau lechyd gan weithio gyda chartrefi gofal a darparwyr preswyl eraill i:

- | | |
|---|--|
| 7 | Sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a lleoliadau sefydliadol eraill, gan gynnwys carchardai, yn gallu cael cymorth gan dimau gofal lliniarol arbenigol i ddarparu gofal diwedd oes priodol. (Oedolion) |
|---|--|

Gwasanaethau cleifion mewnol a brys Byrddau lechyd, y gwasanaeth ambiwlans, gofal sylfaenol a darparwyr yn y trydydd sector i:

- | | |
|---|--|
| 8 | Weithio gyda'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes i werthuso systemau a ffyrdd o weithio sydd â'r nod o leihau derbyniadau y mae modd eu hosgoi. (Oedolion) |
| 9 | Sicrhau y rhennir gwybodaeth am gleifion rhwng gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol mewn amser real. |

Rhaid i bob darparwr Gofal Lliniarol Arbenigol:

- | | |
|----|---|
| 10 | Sicrhau bod yr holl gleifion a'u teuluoedd yn cael y cyfle i roi adborth ar eu profiad o ofal, trwy fecanweithiau sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes. Dylai'r mecanweithiau hyn gynnwys y mesuriadau profiad a |
|----|---|

	gofnodir gan y claf (PREMs) a'r mesuriadau canlyniadau a gofnodir gan y claf (PROMs), ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.
Arolygiaeth lechyd Cymru ar y cyd â'r holl ddarparwyr i:	
11	Sicrhau bod yr holl arolygiadau perthnasol yn cynnwys adolygiad penodol o'r gofal i gleifion ar ddiwedd eu hoes, gan gynnwys ymatebolrwydd i boen a hefyd sgysiau am salwch difrifol gyda chleifion a'r rheiny sy'n agos atynt.

Thema 4: Lleihau trallod salwch angheuol i'r claf a'r rheiny sy'n agos ato

Dyheadau cyflawni:

Mae cleifion yng nghyfnod olaf eu salwch a chleifion sy'n marw, a'r rheiny sy'n agos atynt, gan gynnwys plant mae eu marwolaeth yn effeithio arnynt, yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Ymdrinnir yn briodol ac yn brydlon â symptomau a phroblemau eraill yn unol â Safonau Gofal Lliniarol Cymru Gyfan¹¹ a'r Canllawiau i Gymru Gyfan ar Benderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Byrddau lechyd i:

1	Ddarparu gofal lliniarol a diwedd oes sydd wedi'i gydgysylltu'n dda 24/7 yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig, gan gynnwys: gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol aml-broffesiynol 7 diwrnod yr wythnos sy'n ymateb yn gyflym i atgyfeiriadau brys, a chynghor arbenigol 24/7 ar gael i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.
2	Cynorthwyo'r holl ddarparwyr sy'n gofalu am gleifion sy'n marw i gymryd rhan yn archwiliad Cymru Gyfan o'r dogfennau penderfyniadau gofal.
3	Sicrhau y gall gweithwyr proffesiynol ar draws disgyblaethau ofyn am gyngor yn gyflym ynghylch rheoli cleifion sydd â chyd-afiacheddau lluosog.
4	Sicrhau bod gan yr holl wasanaethau sy'n darparu gofal i gleifion â salwch difrifol ac a allai fygwth einioes fannau tawel a phreifat addas ar gyfer sgysrsiau gyda chleifion a'r rheiny sy'n agos atynt.
5	Gweithio gydag Arolygiaeth lechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gytuno ar ddangosyddion o ansawdd gofal diwedd oes, y byddant yn adrodd yn rheolaidd yn unol â hwy er mwyn caniatáu meincnodi gwasanaethau ar draws yr holl sectorau, er enghraifft sicrhau bod gan yr holl wasanaethau sy'n darparu gofal i gleifion â salwch difrifol ac a allai fygwth einioes fannau tawel a phreifat addas ar gyfer sgysrsiau gyda chleifion a'r rheiny sy'n agos atynt.

Byrddau lechyd ar y cyd â darparwyr gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol oedolion a phediatrig i:

6	Sicrhau bod trefniadau trosglwyddo priodol o wasanaethau gofal lliniarol plant i wasanaethau oedolion yn bodoli.
7	Sefydlu rota cyngor dros y ffôn ar ofal lliniarol pediatrig sy'n gweithredu 24 awr y dydd. (Pediatrig)
8	Gweithio gyda Byw Nawr i glywed llais y defnyddiwr ar bob lefel. (Oedolion)
9	Sicrhau bod yr holl staff nad ydynt yn staff gofal lliniarol arbenigol yn gwybod bod angen ymateb yn gyflym i boen a thrallod gan gleifion sy'n angheuol sâl, ac y caiff poen ei fonitro fel mater o drefn ac yn rheolaidd, ynghyd â symptomau eraill ac anghenion yr unigolyn.
10	Sicrhau cyfranogiad mewn arolygon o brofiad cleifion a'u teuluoedd o ofal lliniarol.

11

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/355/Safonau%20Gofal%20Lliniarol%20Cymru%20Gyfan%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Gofal%20lechyd%20Arbenigol%20i%20Blant%20a%20Phobl%20Ifanc1.pdf>

Thema 5: Gwella Gwybodaeth

Dyheadau cyflawni:

Dylai gwybodaeth bwysig am glaf, gan gynnwys ei anghenion a'i ddymuniadau, fod ar gael yn rhwydd ac yn gyflym i'r rheiny sy'n darparu gofal, er mwyn sicrhau bod y gofal yn gydgysylltiedig, yn effeithlon, yn amserol ac yn ddibynadwy.

Gall data am brosesau gofal gael eu cymharu'n gyflym rhwng gwasanaethau i ddarparu archwiliad dynamig o wasanaethau.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Byrddau lechyd i:

1	Sicrhau bod yr holl wybodaeth ysgrifenedig ar gael mewn fformatau sy'n ddealladwy i'r poblogaethau cleifion a theuluoedd perthnasol e.e. fformatau hawdd eu darllen.
2	Darparu datganiad sicrwydd blynyddol i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes.
3	Trwy'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes, ymchwilio i a gwerthuso ffyrdd arloesol o weithio gan staff, o gofnodi data cleifion ac o gynorthwyo cleifion a theuluoedd gartref, trwy fodolau gofal gwahanol (e.e. rhoi hylifau dan y croen, trallwysu gwaed ac ati gartref; dysgu teuluoedd i roi meddyginiaethau gan gynnwys dosau i leddfu pyliau o boen fel bo'n briodol) a thrwy ddatrysiadau TG.
4	Cyhoeddi gwybodaeth dryloyw am berfformiad y GIG a darparwyr yn y sector gwirfoddol gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd a barn cleifion.
5	Gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a thimau yn y sector gwirfoddol i sicrhau bod cysylltiadau cyfathrebu TG cyflym a diogel yn bodoli i gynorthwyo â gofal clinigol.

lechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i:

6	Ddarparu i Fyrddau lechyd dueddiadau a dadansoddiadau o farwolaethau, manau marw a gwybodaeth berthnasol arall i fonitro perfformiad gwasanaethau lleol.
7	Darparu seilwaith effeithiol o wybodaeth glinigol am ofal lliniarol.
8	Dadansoddi a meincnodi gwybodaeth er mwyn hwyluso a llywio cyfranogiad Byrddau lechyd mewn gwaith cenedlaethol o ran archwilio clinigol ac adolygu gan gymheiriaid.
9	Datblygu a chynnal cysylltiadau TG da â darparwyr sydd ac nad ydynt yn rhan o'r GIG er mwyn hybu darpariaeth gofal integredig.
10	Gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes i ymchwilio i a gwerthuso ffyrdd arloesol o weithio gan staff, o gofnodi data cleifion ac o gynorthwyo cleifion a theuluoedd gartref, trwy fodolau gofal gwahanol a thrwy datrysiadau TG sy'n cofnodi data ar brosesau ac ar ganlyniadau gofal.
11	Sicrhau bod systemau cofnodion clinigol GIG Cymru'n hygyrch ac yn cysylltu â systemau TG perthnasol eraill e.e. systemau ymarferwyr cyffredinol a systemau ambiwlans.

Thema 6: Targeddu Ymchwil

Dyheadau cyflawni:

Dylai prosesau ymchwil gael eu gwreiddio ar draws y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn darparu tystiolaeth i lywio gwelliannau i'r gwaith o gyflawni gofal iechyd a chynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Y blaenoriaethau penodol sy'n galw am gefnogaeth gydgysylltiedig gan sefydliadau'r GIG, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau yn y trydydd sector yw i:

1	Gynyddu nifer yr astudiaethau wedi'u cynllunio'n dda ar ofal lliniarol a gofal diwedd oes a gyflawnir yng Nghymru. Gweithio gydag ymchwilwyr a chanolfannau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynyddu nifer yr astudiaethau a arweinir yng Nghymru yn ychwanegol at y rheiny a gyflawnir yng Nghymru ond a arweinir o wledydd eraill.
2	Cynyddu nifer yr unigolion sydd wrthi'n cymryd rhan mewn ymchwil gofal lliniarol a diwedd oes ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Gweithio gyda Gwasanaeth Cymorth a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru er mwyn datblygu'r seilwaith ychwanegol mae ei angen i gyflawni astudiaethau ymyriadau cymhleth ar draws lleoliadau gofal, gan gynnwys y cartref. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gall cleifion a gofalwyr fanteisio ar astudiaethau wedi'u cynllunio'n dda ar draws Cymru ac ar draws lleoliadau gofal gyda'r effaith leiaf posibl ar eu bywydau pob dydd.
3	Cynyddu nifer yr aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) sy'n cymryd rhan mewn ac yn cyfranogi at weithgarwch ymchwil trwy greu proses drylwyr ac ystyrlon i gynnwys cleifion a gofalwyr sydd ag anghenion o ran gofal lliniarol ar bob cam o weithgarwch ymchwil, o gynllunio astudiaethau i'w cyflawni a'u lledaenu.
4	Sicrhau bod trefniadau'n bodoli ar gyfer ymchwil i fwydo i fecanweithiau sefydliadau ar gyfer mabwysiadu arferion gorau a newid i wasanaethau, gan wella arferion clinigol a chanlyniadau i gleifion.
5	Sicrhau bod arweinydd ymchwil a datblygu'n cael ei ddynodi a'i fod yn darparu arweinyddiaeth weladwy o ran ymchwil a datblygu ar gyfer y Cynllun Cyflawni.
6	Hyrwyddo pwysigrwydd ymchwil a datblygu trwy gymryd rhan mewn astudiaethau, a chydabyddiaeth a dealltwriaeth gan holl staff y GIG a staff eraill o'r rhan mae ymchwil yn ei chwarae wrth gynyddu a darparu gofal o ansawdd da, gan gynnwys recriwtio, cadw a datblygu staff.

Thema 7: Addysg

Dyheadau cyflawni:

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu am bobl ag anghenion o ran gofal lliniarol a diwedd oes yn cael eu harfogi ym mhob lleoliad gofal iechyd i gynorthwyo cleifion a'u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch eu gofal a'u cynorthwyo i ymdopi ag ansicrwydd.

Blaenoriaethau penodol 2017-2020

Byrddau Iechyd ar y cyd â'r holl ddarparwyr i sicrhau:

1	Bod yr holl staff priodol ym mhob lleoliad yn ymwybodol o bum egwyddor Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'u dyletswyddau gofal trwy hyfforddiant gorfodol. (Oedolion)
2	Bod yr holl staff priodol yn ymwybodol o'r angen i sicrhau y rhoddir gwybodaeth onest a chymorth i blant y mae perthynas iddynt yn sâl neu'n marw, fel sy'n briodol i'w hoed a'u datblygiad. (Pediatrig)
3	Bod y staff sy'n cael sgysiau am salwch difrifol â chleifion yn deall pwysigrwydd cofnodi dymuniadau cleifion ar gyfer eu gofal yn y dyfodol, fel rhan o sgwrs barhaus ddynamig. (Oedolion)
4	Bod yr holl staff priodol yn cael hyfforddiant gorfodol ar yr angen i fonitro poen ac ymateb i drallod, gan nodi poen fel un o arwyddion bywyd.
5	Bod rhaglen gytunedig o gymorth ac addysg ar gael i staff cartrefi gofal, er mwyn sicrhau bod cleifion ag anghenion o ran gofal diwedd oes yn cael lefel deg o ofal ni waeth ble maent yn byw. (Oedolion)
6	Bod yr holl staff priodol ym mhob lleoliad yn adnabod anghenion o ran gofal lliniarol ymysg plant a phobl ifanc ac yn gwybod sut i gael gwasanaethau arbenigol priodol. (Pediatrig)
7	Bod sefydliadau megis Byw Nawr yn cael eu cynorthwyo i hwyluso sgwrs genedlaethol am salwch difrifol a pharatoi'r boblogaeth i wynebu gofal diwedd oes. (Oedolion)
8	Y bydd yr holl staff priodol yn cyflawni adolygiadau gan gymheiriaid o ansawdd gofal iechyd er mwyn cynorthwyo a llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

NEWIDIADAU STRATEGOL A DEDDFWRIAETHOL ERS CYHOEDDI'R CYNLLUN CYFLAWNI GOFAL DIWEDD OES CYNTAF YN 2013

Ers cyhoeddi'r cynllun cyflawni cyntaf bu nifer o newidiadau strategol a deddfwriaethol sydd wedi effeithio ar bolisi ac mae angen eu hadlewyrchu yn y cynllun cyflawni wedi'i ddiweddarau hwn.

Rhaglen Lywodraethu newydd a Chynllun y GIG

Nododd Rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru *Symud Cymru Ymlaen 2016-21* a Chynllun y GIG raglen ar gyfer iechyd a lles yng Nghymru gan ganolbwyntio ar wella ein gwasanaethau gofal iechyd; ein staff gofal iechyd; bod yn iach ac yn egnïol; ein hiechyd a lles meddyliol; y dechrau gorau posibl i blant a gofal i bobl hŷn.

Safonau Iechyd a Gofal – Ebrill 2015

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal wedi'u llunio fel y gellir eu gweithredu ym mhob gwasanaeth, adeilad a lleoliad gofal iechyd. Maent yn gosod sylfaen ar gyfer gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd trwy ddarparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i nodi cryfderau ac i sicrhau rhagoriaeth.

Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru, 2012-2016

Mae'r cynllun sicrhau ansawdd yn nodi camau gweithredu i sicrhau ansawdd a gwella ac i ddarparu GIG sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac yn cyflenwi gwasanaethau sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn hygyrch ac yn gynaliadwy, ac sy'n rhoi profiad rhagorol i ddefnyddwyr. Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mis Ebrill 2015 er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n gorfod paratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol yn nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Disgwylir y bydd y cynlluniau hyn yn llywio'r gwaith o bennu blaenoriaethau yn lleol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae nifer o'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn wedi cael eu datblygu i wreiddio ymhellach ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gyd-gyflawni asesiad o anghenion y boblogaeth leol o ran gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion gofalwyr o ran cymorth. Bwriedir i'r asesiad poblogaeth sicrhau bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cynhyrchu sail dystiolaeth glir a phenodol i lywio'r gwahanol benderfyniadau cynllunio a gweithredol, gan gynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Mae asesiadau o anghenion y boblogaeth yn hanfodol i'r gwaith o lunio strategaethau hirdymor da. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn glir bod angen gwneud hyn ar y cyd â chyrrff gwasanaeth cyhoeddus eraill, megis awdurdodau lleol, addysg a thai. Dylai asesiad o anghenion y boblogaeth fod yn sail i'r cynllun llesiant lleol, a gaiff ei ddatblygu gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Y 64 o glystyrau gofal sylfaenol yw'r mecanwaith ar gyfer y dull cydweithredol hwn o gynllunio a darparu gwasanaethau integredig. Mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ariannol, adnoddau gweithlu ac adnoddau eraill sydd ar gael, nid yn unig rhai'r GIG ond hefyd rhai awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ac asedau cymunedau lleol.

Gofal Iechyd Darbodus

At hynny, yn sail i'r cynllun mae egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus. Mae'r ffordd y mae gwasanaethau wedi cael eu siapio a'u darparu yn y blynyddoedd diwethaf yn darparu tystiolaeth dda o ofal iechyd darbodus yn ymarferol a nod y cynllun cyflawni hwn yw cryfhau'r ymagwedd honno trwy fwy o bwyslais ar atal, integreiddio a chynaliadwyedd hirdymor. Mae gwneud anghenion defnyddwyr gwasanaethau'n ganolog i'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, cydgynhyrchu wrth gynllunio gofal a thriniaeth a darparu gwasanaethau gan weithwyr proffesiynol yn y sector statudol a'r trydydd sector yn enghreifftiau da o'r ffordd mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Anghydraddoldebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bydd cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i amcanion agenda cydraddoldeb Llywodraeth Cymru trwy ymrwymiad i adnabod a diwallu anghenion pob grŵp mewn perthynas â strôc, gan gynnwys y rheiny o gefndiroedd difreintiedig sy'n fwy tebygol yn ystadegol o fod yn byw mewn tloedi ac yn wynebu mwy o risg cael clefyd y galon. Mae hyn hefyd wedi cynnwys ystyried yr erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae adroddiad blynyddol diweddaraf y Prif Swyddog Meddygol yn canolbwyntio ar ail-gydbwyso gofal iechyd – gweithio mewn partneriaeth i leihau

annhegwch cymdeithasol ac ymchwilio i effeithiau'r graddiant cymdeithasol ar bobl Cymru, a beth ellir ei wneud i fynd i'r afael ag ef.

lechyd a Gofal Gwybodus - Strategaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru

Mae'n nodi'r ymrwymiad i ddarparu mynediad i'r gwasanaethau gorau posibl i'r cyhoedd trwy alluogi gweithwyr iechedd proffesiynol i ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf diweddar yn ei strategaeth iechedd ddigidol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae hon yn darparu'r sbardun i ddatblygu ac arloesi wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth ym maes gofal cardiaidd er budd cleifion.

Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair

Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair yn rhaglen gydgysylltiedig i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd trwy ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau integredig, gan ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau gwell a llai o anghydraddoldeb i blant.

Y Gymraeg

Mae amcanion 'Mwy na Geiriau...', sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Gymraeg ym meysydd iechedd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, hefyd wedi cael eu gwreiddio yn y cynllun trwy gamau gweithredu sy'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i bob sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sicrhau bod y fath wasanaethau ar gael i'r rheiny sydd eisiau cyfathrebu yn Gymraeg.

Datblygu Gweithlu Medrus

Y gweithlu yw'r elfen fwyaf hanfodol yn y GIG ac yn y trydydd sector ac ef yw prif benderfynydd llwyddiant unrhyw sefydliad. Mae gweithlu ymroddedig, cynaliadwy a medrus yn hanfodol i ddarparu safonau uchel o ofal a gweddnwid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn ymdrin â'r heriau niferus mae GIG Cymru yn eu hwynebu heddiw. Rhaid cynllunio a datblygu'r gweithlu ar sail egwyddorion gofal iechedd darbodus (h.y. sut bydd proffil eich gweithlu'n newid er mwyn caniatáu i weithwyr proffesiynol ganolbwyntio ar y manau lle gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf).

Dolenni i wefannau:

Cynllun cyflawni ar gyfer y rhai sy'n ddifrifol wael

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/delivery-plan/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau ar y Galon

http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/heart_plan/?skip=1&lang=cy

Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/diabetes/?skip=1&lang=cy>

Congenital Heart Disease Services Standards

<https://www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/chd/>

Sentinel Stroke National Audit Programme

<https://www.strokeaudit.org/>

National Confidential Enquiry into Patient Outcome and Death: Time to Intervene (2012)

<http://www.ncepod.org.uk/2012cap.html>

Cochrane

<http://www.cochrane.org/what-is-cochrane-evidence>

Gwefan SSNAP: <https://www.strokeaudit.org/>

Rhaglen Lywodraethu

<http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

Gwreiddio egwyddorion gofal iechyd darbodus

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/prudent-healthcare/?skip=1&lang=cy>

Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Chwefror 2016

<http://www.prudenthealthcare.org.uk/sicrhau-iechyd-a-llesiant-cenedlaethau-dyfodol/>

Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015)

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/care-standards/?skip=1&lang=cy>

Rhagori - cynllun sicrhau ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/excellence/?skip=1&lang=cy>

Fframwaith Cynllunio GIG Cymru

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/organisations/planning/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/care/?skip=1&lang=cy>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/act-nhs/?skip=1&lang=cy>

Iechyd a gofal gwybodus – Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/about/e-health/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2015

[https://www.ymchwiliachydagofal.llyw.cymru/uploads/Policy%20%26%20Strategy/Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Cynllun%20Strategol 2015 2020.pdf](https://www.ymchwiliachydagofal.llyw.cymru/uploads/Policy%20%26%20Strategy/Ymchwil%20Iechyd%20a%20Gofal%20Cymru%20Cynllun%20Strategol%202015%202020.pdf)

Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/public-health-framework?skip=1&lang=cy>

Mwy na geiriau.... Fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau

Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Fframwaith ar gyfer Gwellu Profiadau Defnyddwyr Gwasanaethau a'r cwestiynau craidd

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/profiadau-cleifion>

Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

Darparu Gofal Integredig Lleol

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/integration/?skip=1>

[&lang=cy](#)

**Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth**

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/integration/?skip=1&lang=cy>

Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/care/?skip=1&lang=cy>

Cynlluniau hunanofal a gofal

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/100102frameworkselfcarecy.pdf>
<http://gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chronic-conditions/?skip=1&lang=cy>

Cydsyniad Cleifion

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=465&pid=11930>

**Polisi Newydd i Gymru Gyfan ar 'Peidiwch â Dechrau Adfywio
Cardiopwlmonaidd'**

<http://www.wales.nhs.uk/newyddion/35794>

Atwrneiaeth Arhosol

http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/16-01-04/An_easy_guide_to_lasting_powers_of_attorney.aspx#.WL1C3meml9C

Adolygiad o Weithlu GIG Cymru

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/workforce/?skip=1&lang=cy>

Fframwaith Rheoli Perfformiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

<https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/rheoli-perfformiad/?force=2>

Ymgysylltu â Diwydiant yng Nghymru

<https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/ymgysylltu-diwydiant/?force=2>

Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Perfformiad Ymchwil a Datblygu'r GIG

<https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/polisi-ariannu-ymchwil-a-datblygu-gig/?force=2>

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/5/enacted/welsh>

Cynllun Cyflawni, Dangosyddion a Fframwaith Sicrwydd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes (i lywio canllawiau Byrddau Iechyd unigol)

Gweledigaeth

Pobl yng Nghymru i fod ag agwedd iach, realistig at farw, a chynllunio'n briodol ar gyfer y digwyddiad

Gall pobl sy'n marw yng Nghymru gael gofal o ansawdd da ble bynnag maent yn byw; a beth bynnag fo eu clefyd neu anabledd gwaelodol, maent yn treulio'r misoedd cyn eu marwolaeth heb unrhyw ragfarn ynghylch eu sefyllfa bersonol

Dangosyddion Canlyniadau

Gostyngiad yn nifer y cwynion, yn enwedig y rheiny lle na wrandawyd ar bobl a'r rheiny sy'n agos atynt wrth iddynt fynegi eu hanghenion a'u dewisiadau.

Dywed ysgolion y gwyddant sut i gael cymorth i blant sydd â chyflyrau difrifol sy'n cyfyngu ar oes ar adegau dirywio a marw.

Thema 1: Cynorthwyo â Byw a Marw Gydag Urddas

Dangosyddion trosfwaol

Cynhelir sgysiau am salwch difrifol yn briodol ac maent yn grymuso cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Mae cofnodion hyfforddiant staff yn dangos o leiaf 20% o gynnydd yn y staff sydd wedi dilyn hyfforddiant ar sgiliau cyfathrebu mewn sgysiau am salwch difrifol

Mae cleifion a theuluoedd yn cofnodi:

Cael eu dysgu egwyddorion sylfaenol symud diogel

Y gwyddant â phwy i gysylltu bob amser pan fo unigolyn yn marw gartref

Y gallant gael meddyginiaeth yn ddi-oed

Thema 2: Canfod ac Adnabod Cleifion yn Gynnar

Dangosyddion trosfwaol

Caiff cleifion â salwch cynyddol difrifol sydd ag anghenion o ran gofal lliniarol eu hadnabod yn gynnar

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Mae cofrestru ymarferwyr cyffredinol yn dangos cynnydd yn niferoedd y cleifion y nodir bod angen gofal lliniarol arnynt. Caiff y cleifion hyn eu hadolygu'n rheolaidd a dros amser mae hyd yr amser mae cleifion ar y gofrestr yn cynyddu.

Mae cofnodion hyfforddiant yn nodi niferoedd a graddau'r staff sydd wedi dilyn hyfforddiant penodol ar sgysiau am salwch difrifol gyda chleifion a theuluoedd

Thema 3: Darparu Gofal Diwedd Oes Cyflym ac Effeithiol

Dangosyddion trosfwaol

Dywed cleifion a theuluoedd y cânt ofal sy'n diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau.

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Gostyngiad yng nghyfraddau derbyniadau i ysbytai i gleifion y gwyddys eu bod yn dod i ddiwedd eu hoes, gyda mwy yn cael gofal yn un o'r manau o'u dewis i gael gofal.

Adborth cleifion a theuluoedd ar eu profiad o ofal.

Adroddiadau arolygu AGIC ac adolygu gan gymheiriaid ar gyfleusterau ac ansawdd gofal.

Data systemau cofnodion clinigol GIG Cymru ar ymatebolrwydd gwasanaethau / sgorau canlyniadau cleifion

Thema 4: Lleihau trallod salwch angheuol i'r claf a'r rheiny sy'n agos ato

Dangosydd trosfwaol

Mae cleifion a'r rheiny sy'n agos atynt gan gynnwys plant yn dweud y teimlant eu bod yn cael eu cefnogi ar bob cam a chan yr holl staff

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Mae adroddiadau Set Data Sylfaenol yn dangos digon o staff gofal lliniarol arbenigol yn gweithio yn unol ag argymhellion y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes

Mae tystiolaeth o drefniadau trosglwyddo gofal mewn adolygiadau gan gymheiriaid

Mae systemau TG yn ei gwneud yn bosibl gweld gwybodaeth allweddol ar draws yr holl ddarparwyr

Mae gwasanaethau cymorth mewn profedigaeth a phroses atgyfeirio ar waith
Mae arolygiadau AGIC ac AGGCC yn canfod tystiolaeth o ymateb i boen ar frys
Mae arolygiadau AGIC ac AGGCC yn canfod bod y safleoedd gofal yn darparu preifatrwydd priodol

Thema 5: Gwella Gwybodaeth

Dangosydd trosfwaol

Mae cleifion a'u teuluoedd yn cael y wybodaeth mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniadau

Mae data'r GIG sy'n cael eu casglu fel mater o drefn yn nodi ansawdd gofal, perfformiad gwasanaethau a chwynion

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Mae prosesau gofal yn datgelu nad oes oedi wrth gael triniaeth frys i gleifion sy'n ymglyfwyno gyda symptomau sy'n awgrymu argyfwng meddygol

Caiff cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar frys i gael gofal lliniarol arbenigol eu gweld cyn pen dau ddiwrnod ar y mwyaf, a chaiff y mwyafrif eu gweld cyn pen 24 awr neu lai

Mae data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru'n darparu gwybodaeth glinigol sy'n berthnasol i ofal i gleifion

Mae newidiadau mewn symptomau a sgorau trallod yn cael eu casglu fel mater o drefn o gofnodion gofal lliniarol arbenigol.

Thema 6: Targeddu ymchwil**Dangosydd trosfwaol**

Cynnydd yn yr ymchwil i broblemau gofal lliniarol

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Pennir Arweinydd Ymchwil a Datblygu Gofal Diwedd Oes gan bob Fwrdd Iechyd

Cynnydd yn y nifer a math o brosiectau ymchwil sy'n cael eu cyflawni'n genedlaethol gyda chymorth Canolfan Ymchwil Marie Curie

Cynnydd yn nifer y cleifion a'u teuluoedd yng Nghymru sydd â mynediad i, ac yn cymryd rhan mewn, ymchwil gofal lliniarol Adroddiad ar y dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Perfformiad Ymchwil a Datblygu'r GIG sy'n berthnasol i'r Cynllun Cyflawni.

Thema 7: Targeddu addysg**Dangosydd trosfwaol**

Mae gan weithwyr proffesiynol sy'n gofalu am bobl ag anghenion o ran gofal lliniarol a diwedd oes ym mhob lleoliad gofal iechyd yr hyn sydd ei angen i gynorthwyo cleifion a'u teuluoedd.

Mesuriadau Perfformiad (Sicrwydd)

Mae tystiolaeth o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r sgwrs genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd ynghylch cynllunio gofal ymlaen llaw ar gyfer diwedd oes

Mae tystiolaeth bod yr holl staff priodol wedi cael hyfforddiant gorfodol ar yr angen i fonitro poen ac ymateb i drallod, gan nodi poen fel un o arwyddion bywyd.

Mae tystiolaeth bod rhaglen gytunedig o gymorth ac addysg ar gael i staff cartrefi gofal, er mwyn sicrhau bod cleifion ag anghenion o ran gofal diwedd oes yn cael lefel deg o ofal ni waeth ble maent yn byw.

Mae tystiolaeth bod hyfforddiant ar gael i'r holl staff priodol ym mhob lleoliad o ran pum egwyddor Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'u dyletswyddau gofal i'r cleifion.